

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Hydref, 2026 yn Neuadd Felinfach am 7.30pm.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Cyng. Lynford Thomas (Cadeirydd), Dan Evans, Euros Davies, Alan Henson, Glyn Davies, Hywel Ifans, Gerwyn Owen, Melinda Williams, Haf Hughes

1. **YMDDIHEURIADAU:** Wendy Lloyd Lewis

2. **PERSONOL**

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**

4. **CADARNHAU COFNODION 01/09/2026**

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

- a. **13.iii Llythyr Carnifal Felinfach.** Paratowyd llythyr ar ran Pwyllgor ac anfonwyd at Arwyn Davies. Mae'r trafodaethau'n parhau.
- b. **14.b Hewl Wernddu/Pensarnfach.** Derbyniwyd ymateb gan y Sir yn gweud bod arolygiad eisoes wedi digwydd ar yr hewl hon a bod dim rheswm dros flaenoriaethu'r gwaith ar hyn o bryd, Bydd y gwaith yn cael ei wneud pan fydd adnoddau priodol ar gael!

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Cafwyd adroddiad am sefyllfa'r Sir o ran y newid ffiniau arfaethedig ac esboniodd ei bod hi'n anhebygol y bydd unrhyw benderfyniad o du Llywodraeth Cymru cyn mis Medi 2027.

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU.** Cafwyd adroddiad gan PC Liz Jenkins a'i chydweithiwr am y materion oedd wedi codi yn ystod y mis diwethaf. Rhanwyd posteri "Mae Casineb yn Brifo" i'w harddangos yn y pentrefi.

8. **CYLLID**

- a. Tâl y Clerc Mehefin Medi £240.14
- b. **Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol** 10/08/26 – 09/09/26 £4.25
- c. **Lloyds Banc : Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd:** 10/08/26 – 09/09/26 £4.25
- d. **Peace Pledge Union** – £40.00. **Ad-daliad i'r Clerc** am Pabis Gwyn Sul y Cofio
- e. **Canlyniad yr Archwiliad Allanol.** Derbyniwyd yr adroddiad ar 25ain o Fedi a'r gofynion statudol wedi eu cymeradwyo a dim materion pellach wedi codi sydd angen sylw. Mi fydd y datganiadau priodol nawr yn cael eu cyhoeddi yn y bocsus cymunedol a'r wefan a byddant ar gael i'w gweld o'r 19eg Hydref hyd at yr 2il o Dachwedd. Derbyniwyd canlyniad yr archwiliad allanol yn unfrydol.

9. CYNLLUNIO - dim i'w drafod

10. Cyfarfod Ad-drefnu Ffiniau 8/9/26 a Chyfarfod y Cyngor 24/9/26.

Yn dilyn y cyfarfod yn Neuadd Llwynceilyn cyflwynwyd cynnig mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor Sir ar y 24ain o Fedi sef: ***Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu a diddymu cynigion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru ynghylch newidiadau i ffiniau Cyngorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.*** Pasiwyd y cynnig ond gwnaed cais gan Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion i adolygu'r cynnig, ac i'w gryfhau ar gyfer anfon at Siân Gwenllian, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Lywodraeth Leol. Yn sgil hyn, penderfynwyd anfon at Lowri Edwards yn yr Adran Gwasanaethau Democrataidd i ofyn beth yw'r sefyllfa o ran y Cyngor Cymuned a beth dylid gwneud nesaf.

Bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn cyfarfod ZOOM a gynhelir gan Un Llais Cymru ar 4ydd Tachwedd i gael fwy o wybodaeth.

11. CYFARFOD UN LLAIS CYMRU 22 Medi ,2026

Mynychwyd y cyfarfod dros y we gan Y Clerc. Cafwyd trafodaeth am sefyllfa meddygfa Cei a hefyd am y newid ffiniau. Cafwyd hefyd cyflwyniad gan CAVO am y grantiau sydd ar gael ac un o ddiddordeb i ni fyddai grant o £200 i gynnal diwrnod iechyd a lles. Y Clerc i wneud rhagor o ymholiadau.

12. ARDAL FEICIO FELINFACH.

Yn dilyn adroddiad gan yr Heddlu am bobol ifanc yn reidio beics trwy gerddi rhai o drigolion Felinfach a chwyn y bobol ifanc nad oedd unman diogel iddynt i feicio, gofynwyd i'r Cyngor gan yr Heddlu i geisio adnabod mannau posibl a fyddai'n addas ar gyfer man feicio. Yn dilyn trafodaeth gynhywsfawr cynigodd y Cyng. Hywel Ifans, ac eiliwyd gan y Cyng. Haf Hughes ein bod yn cysylltu â'r Sir i ofyn a fyddai (a) iard yr hen ysgol yn opsiwn a (b) a fyddai modd creu lôn seiclo trwy ganol y pentre hyd at Dafarn y Vale. Pasiwyd yn unfrydol.

13. GWOBR Y GYMUNED

Yn sgil yr hyn a basiwyd yng nghyfarfod mis Mawrth 2026 **penderfynwyd yn unfrydol** enwebu Cymdeithas Clotas, Cribyn am yr holl lwyddiant wrth greu Canolfan Ysgol Cribyn. Bydd aelodau'r Gymdeithas yn cael eu gwahodd i gyfarfod mis Rhagfyr yn ôl yr arfer.

14. GOHEBIAETH

- i. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch am y £25.00 wrth Urdd Gobaith Cymru – Cronfa Cyfle I Bawb

15. UNRHYW FATER ARALL

- a. Codwyd mater di-wifr i Neuaddau gan y Cyng. Haf Hughes. Bydd y Cyng. Hywel Ifans yn ail-edrych ar yr adroddiad a baratowyd ac yn gweithredu'r anghenion law-yn-llaw â neuaddau Felinfach a Dihewyd.
- b. Yn dilyn archwiliad o bont Glanafon, gofynnodd y Cyng. Gerwyn Owen pe bai modd gofyn i'r Sir i greu pont groca (hump-backed bridge) oherwydd bod dŵr wyneb yn sefyll ac yn dripiant oddi tani'n ddi-baid gan wanhau'r bont. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Sir am y bont hon ac ar gais y Cyng. Euros Davies y bont ger Dolgerdd sydd â phroblem tebyg.
- c. Nododd y Cyng. Gerwyn Owen nad oedd cloc a roddwyd i Ysgol Cribyn gan Hilary, ei ferch i'w weld ar ddiwrnod agoriad Canolfan Ysgol Cribyn. **Penderfynwyd** pasio'r neges i Bwyllgor Clotas.

16. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Tachwedd 10fed Canolfan Ysgol Cribyn